
# Saith taith gerdded wanwynol i fwynhau’r Pasg hwn

24/05/2019



Mae gwyliau'r Pasg yn amser gwych i gael awyr iach! O draethau breuddwydiol i fynyddoedd ysblennydd, mae'r Loteri Genedlaethol wedi cefnogi mwy na 42,000 o brosiectau treftadaeth ledled y DU a fydd yn rhoi cyfle i chi ymestyn eich coesau.

## Crwydro’r Causeway

Yn wynebu Cefnfor Gogledd Iwerydd, mae tirwedd o glogwyni dramatig yn aros amdanoch. Mae Sarn y Cedwri, sef unig safle treftadaeth y byd yng Ngogledd Iwerddon, yn gwahodd ymwelwyr i archwilio un o'i bedwar llwybr cerdded cyffrous. I'r rheini sy'n teimlo'n anturus, ceir taith gerdded heriol o 5 milltir gyda golygfeydd syfrdanol o’r clogwyn.



## Dro bach ar y traeth

Mae arfordir Jurasig yn Nyfnaint a Dorset yn annog ymwelwyr i gerdded trwy 185 miliwn mlynedd o hanes daearegol. Mae'r safle treftadaeth byd yma’n cynnig gweithgareddau sy'n ystyriol o deuluoedd fel hela ffosilau a fydd yn rhoi digon i chi wneud yn ystod gwyliau'r Pasg.



## Ymlwybro drwy’r parc

Efallai mai Parc Cenedlaethol Northumberland fydd y lle perffaith i'r rhai sy'n chwilio am rywle i grwydro. Mae llwybrau cerdded amrywiol yn cyflwyno ymwelwyr i safleoedd gwahanol, gan gynnwys adfeilion Mur Hadrian, heneb Rufeinig fwyaf Ewrop sydd wedi goroesi a Safle Treftadaeth y Byd.



## Fforio’r fforest

Gall y rhai sy'n chwilio am antur ymweld â choedwig Epping. Mae nifer o lwybrau cerdded wedi'u lleoli rhwng Llundain ac Essex, sy'n galluogi ymwelwyr i archwilio 2,400 hectar o goetir hynafol. Ar eich pen eich hun neu gyda'ch teulu, bydd yn ddiwrnod gwych!



## Awyr iach yn yr ardd

Nid oes gwanwyn heb flodau! Mae cael crwydro drwy Gerddi Caerog Dumfries House yn yr Alban yn ddewis perffaith i deuluoedd sydd â phlant ifanc. Gallwch gerdded trwy filoedd o welyâu blodau, a cherdded drwy d? gwledig godidog Palladian ac archwilio drysfa ysblennydd Dumfries.



## Croesi’r afon

Cerddwch mewn ôl traed hanesyddol ym  Mhont Haearn  , un o'r safleoedd sy'n symbol o ddechrau'r chwyldro diwydiannol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Yno, gallwch hefyd gerdded ar draws afon hardd Hafren, un o'r afonydd hiraf yn y DU. Mae sawl gweithgaredd sy'n addas i'r teulu cyfan a fydd yn gwneud eich ymweliad yn hwyl ac yn addysgiadol.



## Lle i enaid gael llonydd

Eryri yw’r parc cenedlaethol mwyaf yng Nghymru, sydd hefyd yn gartref i'r Wyddfa, y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mae gan Eryri lawer o lwybrau cerdded gyda golygfeydd godidog o’r parc. Ewch ar daith a thorrwch chwys ar ôl yr holl wledda dros y Pasg!

